# Arwyddion o anhawster prosesu synhwyraidd - gweledol (golwg)

Byddwch wedi clywed am ein 8 system synhwyraidd: clyw, golwg, blas, arogl, cyffwrdd, festibwlar, propriodderbyniaeth ac interodderbyniaeth. Byddwch hefyd wedi clywed am sut rydym yn prosesu ein gwybodaeth synhwyraidd; rydym yn derbyn ac yn trefnu teimlad o'r amgylchedd, yna rydym yn prosesu'r wybodaeth honno ac yn gwneud ymateb ystyrlon effeithiol. Nawr gallwn ystyried sut deimlad yw bod â gwahaniaeth yn ein system synhwyraidd weledol a sut mae hyn yn edrych.

<u>System synhwyraidd weledol</u>
Mae ein llygaid yn derbyn gwybodaeth o'r pethau o'n cwmpas ac yna'n cyfathrebu hyn â'n hymennydd er mwyn gwneud synnwyr ohoni. Nid yw ein system synhwyraidd weledol yn ymwneud â pha mor dda y gall ein llygaid weld, ond mae'n ymwneud â'r hyn y mae ein hymennydd yn ei wneud gyda'r wybodaeth y mae'n ei derbyn.
Mae'n bwysig bod asesiadau llygaid trylwyr yn cael eu cynnal cyn cymryd yn ganiataol bod yr anhawster yn ymwneud â phrosesu synhwyraidd.

<u>Prosesu gwybodaeth synhwyraidd weledol</u>
Byddwch yn cofio inni ddefnyddio cwpanau i ddisgrifio sut rydym yn cofrestru gwybodaeth synhwyraidd.
Pan fydd gennym gwpan fach nid yw'n cymryd llawer o wybodaeth cyn i ni sylwi arno — mae eich cwpan bach yn llenwi'n gyflym iawn! Rydym yn galw hyn yn or-ymatebol.
Pan fydd gennym gwpan mawr mae'n cymryd llawer mwy o wybodaeth er mwyn i ni sylwi - mae'n cymryd mwy i lenwi ein cwpan. Rydym yn galw hyn o dan-ymatebol.
Cofiwch nad yw hyn bob amser yn broblem, ac y gall ein gallu i gofrestru, prosesu ac integreiddio ein gwybodaeth synhwyraidd deimlo'n anodd weithiau - pan fyddwn wedi blino, yn sâl neu wedi'n llethu gall deimlo bod ein cwpan yn llenwi'n gyflym.

Arwyddion sy'n Awgrymu Anhawster

| Gor-ymatebol  | tan-ymatebol  |
|---|---|
| • Casáu goleuadau llachar<br>• Mae'n well ganddynt wisgo het neu sbectol haul<br>• Mae'n well ganddynt y tywyllwch<br>• Eu sylw'n cael ei dynnu gan wybodaeth weledol<br>• Cael trafferth cerdded ar draws arwynebau sy'n newid | • Yn hoffi goleuadau llachar, adlewyrchiadau a goleuadau sy'n troelli<br>• Mae'n cymryd llawer o ysgogiad gweledol i ymateb<br>• Cael trafferth dod o hyd i eitemau unigol o fewn amgylcheddau 'prysur' |

**Strategaethau i gefnogi:**

| Gor-ymatebol  | tan-ymatebol  |
|---|---|
| • Ystyriwch yr amgylchedd - a fyddai gweithle ar-wahân yn helpu i leihau'r gwrthdyniadau?<br>• A ellir addasu unrhyw beth arall yn yr amgylchedd i leihau'r gwrthdyniadau gweledol?<br>• Parth tawel<br>• Den dywyll<br>• Arbrofi gyda gwahanol ffynonellau golau – a yw golau naturiol yn well (osgoi goleuadau fflwroleuol)<br>• Capiau / hetiau gyda brig pan fyddant y tu allan<br>• Sbectol gyda tint, neu sbectol haul lle bo modd | • Cyfle rheolaidd i gael ysgogiad gweledol<br>• teganau sy'n goleuo<br>• Tiwbiau swigod, ffibr opteg<br>• Poteli wedi'u llenwi â dŵr a gliter, ysgwydwch nhw!<br>• Taflenni gwaith disglair, gan ddefnyddio lliwiau cyferbyniol<br>• Lle gwaith wedi'i oleuo'n dda |



